# y Dinesydd

Papur Cymraeg
Caerdydd a'r Cylch
Mai 1991
Rhif 173
Yn rhad ac am ddim


# PA DDYFODOL I'R DINESYDD?

***Shân Emlyn***

Oherwydd i'r trefniant efo Detheridge ddod i ben, y mae hi'n ddydd o brysur bwyso ar y Dinesydd. Rhaid tynnu sylw'r darllenydd at ein hargyfwng. Fe welwch mai rhifyn 8-tudalen yw'r rhifyn hwn, ac felly byr a phrin yw'r gofod. Cynhyrchwyd y rhifyn hwn gan ewyllys da a chonsyrn Alun Ceri Jones a'i gwmni Surexit.

Rhaid inni felly wynebu'r dyfodol. Y mae sawl posibilrwydd. Rhaid apelio atoch – a gofyn – beth yw cyfrifoldeb ac ymlyniad y darllenydd i barhad Y Dinesydd? Gallwn:

1. Parhau i gyhoeddi fel o'r blaen. Mae'r gost yn uchel – £2000 y rhifyn;

2. Troi'n ôl i'r hen ddull – sef ymlafnio â siswrn a glud. Cost y ddull honno fyddai oddeutu £500 y rhifyn, ac yn y fargen golli'r golwg broffesiynol sydd ar y papur. Byddai angen llawer mwy o help gwirfoddol i dreulio oriau yn teipio, gosod a dylunio;

3. Cydweithio ag un o'r papurau rhad lleol, a chael cylchrediad a dosbarthiad i 10,000 o gartrefi. Y costau eto yn uchel – costau dylunio, argraffu a chyfrifoldeb am hysbysebion.

Y mae'n bosib cael 4 tudalen yn un o bapurau lleol Caerdydd. Golyga'r dull yma newid holl naws y papur – pytiog a phrin o erthyglau swmpus a fyddai. Papur tebyg i Acen yn y *Wales on Sunday*. Ein dilema ni yw sut i ymateb i'r posibilrwydd hwn? Ai gostwng ein safonau a wnawn? Neu wynebu her newydd i bapurau bro Cymraeg – a fyddai'r Dinesydd yn arloesi unwaith eto. Beth feddyliwch chi?

I grynhoi, pa bynnag ddull a ddewisir, mae gwir angen gwaed newydd ar y papur i gynnal breichiau ac ygwyddau'r criw bach bach ffyddlon, a hynny i feddwl am ddyfodol Y Dinesydd. Y mae hi'n hanfodol cael system o gasglu hysbysebion, ac i holi am nawdd. A oes unrhyw un yn barod i wirfoddoli ac ymgymeryd â'r gwaith? Nid ydym mewn sefyllfa i gyflogi rhywun i wneud y gwaith yn broffesiynol.

Yn y rhifyn hwn fe welwch holiadur. Da chi, ewch ati i'w ateb a'i anfon ataf i mi gael rhyw fath o ganllawiau i'r dyfodol – does dim angen stamp hyd yn oed i'w anfon yn ôl.

Yn y bôn, chi ddarllenwyr sydd i benderfynu parhad neu dranc y papur. I bwysleisio difrifoldeb y sefyllfa, cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Festri Capel Crwys, Heol Richmond am 7.30pm nos Fawrth y 14eg o Fai 1991. Yn y cyfamser mewn ffydd, anfonwch ddeunydd i rifyn Mehefin a ddaw allan gobeithio ar Fehefin y 14eg.

Cyndyn iawn wyf i weld papur bro cyntaf Cymru yn mynd i'w aped.

# Goreuon Ewrop yn Lecwydd

Bydd llygaid Ewrop gyfan ar Gaerdydd ddydd Sadwrn 18 Mai, pan ddaw Steve Ovett yma fel un o sêr y trac rhedeg ar gyfer campau Wythnos Chwaraeon Ewropeaidd Caerdydd yn Stadiwm Athletau Caerdydd yn Lecwydd.

Mae Ovett wedi derbyn gwahoddiad i redeg mewn râs 3000 metr arbennig ddylai fod yn benllanw prynhawn llawn o athletau.

Yn cystadlu hefyd bydd timoedd o Stuttgart – gefeilldref Caerdydd yn yr Almaen – ac o Ddulyn, sef y ddwy ddinas fu ynghyd â Chaerdydd yn sbardun ar gyfer y cystadlaethau hyn i athletwyr iau a hŷn.

Disgwylir i Stuttgart anfon tîm cryf i Gaerdydd, ac mae Dulyn eisoes wedi cadarnhau y bydd sawl rhedwr rhyngwladol yn eu tîm hwythau.

Yn ogystal â'r trac rhedeg, bydd sêr rhyngwladol campau athletaidd eraill gan gynnwys neidio â pholyn yn cystadlu. Mae dau o brif neidwyr yr Undeb Sofietaidd hefyd wedi cadarnhau y byddan nhw yno, ynghyd â phrif neidiwr Cymru, Nigel Winter.


y Dinesydd

**Cofio Bernard Evans** *tudalen 3*

**Clwt Ifor Bach? – Annwyl Ddinesydd** *tudalen 4*

**Y Sêr** *tudalen 5*

**Y Croesair** *tudalen 6*

**Nant Lleucu – pwy oedd Lleucu Bren?** *tudalen 7*

**Menna'n Manylu – Hwiangerdd i Ruth Parry** *tudalen 7*


## Y Dinesydd yn sbarduno'r mawrion

Yn dilyn yr adroddiad yn rhifyn mis Mawrth/Ebrill y Dinesydd am gysylltiad Ysgol Glantâf â Siapan, ymddangosodd adroddiad yn y *Times* a'r *Western Mail*.

Deallwn y bydd cysylltiadau pellach yn deillio o'r berthynas rhwng y ddwy ysgol, a gobeithiwn ennill y blaen ar bob papur arall gyda'r newyddion diweddaraf am y berthynas honno.

Darllenwch y Dinesydd!

**MAE PETHAU'N DIGWYDD PAN YMUNWCH CHI Â**

# CHAPTER

Cynnig arbennig i ddarllenwyr y Dinesydd

## BETH? RY'N NI'N CAEL HYN I GYD PAN YMUNWN NI Â CHAPTER?

★★ Arbed arian bob tro y byddwch chi'n ymweld â Chapter drwy brisau tocynnau gostyngedig
★★ Gwybodaeth gyfredol yn rhad ac am ddim drwy'r post am bob un o weithgareddau Chapter
★★ Arbed arian yn rhai o siopau dethol Caerdydd
★★ Gwahoddiadau i Ddangosiadau Preifat a digwyddiadau arbennig eraill
★★ Trefniadau aelodaeth arbennig â Chanolfannau Celfyddydau eraill ym Mhrydain

## AC

os ymunwch chi cyn 10 Mehefin mi fyddwch chi fel un o ddarllenwyr y Dinesydd yn ARBED £2.00

**ARBED ARIAN . . . WRTH FWYNHAU . . . WRTH YMUNO . . .**

**FFURFLEN GAIS AM AELODAETH** (Cynnig Arbennig y Dinesydd)

Llenwch mewn llythrennau bras a'i dychwelyd ynghyd â'ch taliad un ai yn bersonol neu drwy'r post at:- Chapter, Freepost, Caerdydd CF5 1ZZ (nid oes angen stamp)

ENW(au). . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

CYFEIRIAD . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .


. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . Cod Post . . . . . . . . . . . . . . .

Aelodaeth Unigol £8.00
Myfyrwyr/Henoed/Diwaith £5.50
Aelodaeth ar y cyd (Dau o bobol yn yr un cartref) £10.50
Gwnewch eich siec yn daladwy i Chapter (Caerdydd) Cyf

Arwyddwyd . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . Dyddiad . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .








# AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

# *CELTIAID CYMRU*

## *Arddangosfeydd a Digwyddiadau*

Celtica 1991 CYMRU WALES

**Y PRIF ADEILAD**
*Parc Cathays, Caerdydd*
*CELTIAID CYMRU*
Mai 2 – Medi 29
Bydd yr arddangosfa yn canolbwyntio ar y Celtiaid o'r cyfnod cynhanesyddol diweddar hyd at yr Oes Tywyll (1500 CC tan 1000 OC). Bydd yn cynnwys adran ar hanes yr ieithoedd Cymraeg a Cheltaidd ac adluniad o'r un maint â'r gwreiddiol o dŷ crwn Celtaidd Cymreig, ynghyd ag arddangosiadau o gelfyddyd Geltaidd, gemau a Henebion Cristnogol Cynnar.

Gyda'r arddangosfa fe geir rhaglen llawn o ddigwyddiadau a gweithgareddau, gan gynnwys perfformiad llawn o'r Mabinogion (sydd gyda'r enwocaf o futhiau a chwedlau Cymreig), nosweithiau o gerddoriaeth Geltaidd, arddangos crefftau, a.y.b.

**AMGUEDDFA LENGOL RUFEINIG**
*Caerllion*
*Y RHUFEINIAID A'R CELTIAID YNG NGHAERLLION*
Mehefin 14 – 16
Bydd gwahanol fydoedd y Rhufeiniaid gynt a Cheltaidd Oes yr Haearn – mewn cyfnod o ryfel a heddwch – yn dod yn fyw yn ystod yr achlysur hwn a gynhelir am dridiau yng Nghaer Lengol Rufeinig Isca



**AMGUEDDFA WERIN CYMRU**
*Sain Ffagan, Caerdydd*
*Y DELYN, Y CRWTH A'R PIBAU*
Mai 1 – Medi 29
Arddnagosfa yn ymneud ag offer cerdd traddodiadol yng Nghymru o'r Canol Oesau a'r Dadeni ymlaen

*GŴYL HEN GALAN MAI* Mai 3 – Mai 6

*GŴYL WERIN GELTAIDD* Mehefin 22

*DIWRNOD O HWYL CELTAIDD* Awst 17

*GŴYL Y CYNHAEAF* Medi 28 – 29

*Y GYMRAEG A IEITHOEDD CELTAIDD ERAILL*
Hydref 15 – Ebrill 18 1992
Hynt a helynt yr iaith Gymraeg o'r cyfnod cyn y Rhufeiniaid hyd at ei dirywiad, a'r adfywiad sylweddol presennol

*CODI'R TŶ CRWN CELTAIDD*
Mis Hydref

**AMGUEDDFA DIWYDIANT GWLÂN CYMRU**
*Dre-fach Felindre, Dyfed*
*DYLYNIADAU CELTAIDD* Mehefin – Medi

*Am fanylion pellach:*
*Adran Gwasanaethau Cyhoeddus*
*Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NP Ffôn: (0222) 397951*

# Bernard y dyn da

## *Rhan o deyrnged y Parchedig Eifion Powell i'r diweddar Bernard Evans*


Wrth gyflwyno teyrnged i gymeriad y diweddar Bernard Evans, gellir dweud ei fod yn ddyn da. Un arwydd amlwg o'r daioni hwnnw oedd ei le anrhydeddus fel penteulu caredig, ar ei aelwyd ei hun.

Tra'r oedd cyfeillion Bernard yn gyfarwydd â'i ddull chwareus o gyfeirio at Valmai, a'i ddull diymffrost o sôn am Huw a Dylan, ni allai'r naill ddull na'r llall guddio'n llwyr ddiddordeb byw y tad consyrnol yn ymdrech a llwyddiant ei blant, na chwaith edmygedd llwyr y gŵr priod diolchgar o gysondeb rhuddin a chyfraniad a gofal ei wraig.

Roedd Bernard hefyd yn ddyn dewr, fel y tystia'r neb a welodd y modd dewr y wynebodd ei afiechyd creulon.

Ac yn drydydd roedd Bernard yn ddyn doniol. Yn sicr roedd yn meddu ar y ddawn i ddiddanu – a hynny yn naturiol gyda threiddgarwch ei adnabyddiaeth o'r natur ddynol a'i ddawn ymadrodd yn asio i gynhyrchu chwerthiniad iach yn y sawl y sgwrsiai â nhw.

Roedd ganddo awydd i greu diddanwch i fywydau pobol. Ac am iddo lwyddo i'n diddanu, yn ystyr ddyfnaf y gair hwnnw, hyd yn oed yn ei anghysur a'r ddioddefaint, fe ddiolchwn i Dduw amdano ac am ei gyfraniad i'n bywydau.



**I Bernard**
**– am oes o gyfeillgarwch –**

*Erys ei acen o'r Gwendraeth – a'i wên*
*Mor hael ei chefnogaeth;*
*Heb ffrind a'i ddoethineb ffraeth*
*Erys hafau o hiraeth.*

***Arfon Huws***

**Bernard Evans**
**1926 – 1991**

*I Gaerdydd o Garwe daeth – yn union*
*Annwyl ei frwdaniaeth*
*A'i awen oll, a phan aeth*
*Anhuddwyd ein llenyddiaeth*

***T Arfon Williams***

## y Calendar

**13 Mai**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd – *y clefyd melys: rhai agweddau hanesyddol a golwg ar ymchwil gyfoes.* Dr Alan Rees

**13 Mai**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, Gwesty'r Parc

**17 Mai**
Cymrodorion Caerdydd – cyfarfod blynyddol yn y Tabernacl

**5 Mehefin**
Merched y Wawr Cangen Bro Radur – *Awyr Iach.* Ted Edwards

**15 Mehefin**
Yr Amgueddfa Genedlaethol – Fforwm Undydd ar y Bardd Celtaidd, dan nawdd Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru a'r Amgueddfa Genedlaethol

**20 - 22 Mehefin**
Gŵyl Flodau yn Eglwys Ebeneser, Heol Siarl, o 10am - 5pm bob dydd, gydag egwyl gerddorol a lluniaeth

**26 Mehefin**
Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro – Dr Glyn Evans Jones

# O Gaerdydd i Los Angeles yn Glasgow

Mae'r cwmni theatr chwyldroadol Brith Gof wrthi'n teithio fis Mai. Ar y 10fed a'r 11eg o'r mis bydd y cwmni'n cyflwyno *Los Angeles* yn y Tramway yn Glasgow fel rhan o ŵyl y Mayfest.

Perfformiwyd y *Los Angeles* gwreiddiol mewn hen fragdy yng Nghwm Rhymni.

Yn y fersiwn newydd ceir angylion yn hedfan, cerddoriaeth drydanol gyffrous, a gwrthdaro rhyfeddol rhwng corff a gwrthrych, heb fod un gair yn cael ei ynganu.

Wrth edrych ymlaen at fis Mehefin bydd Mike Pearson yn rhoi tri pherfformiad unigol mewn tri lleoliad annisgwyl yng Nghaerdydd – *Taxonomy, Autopsy* a *Simulations* – gyda'u cynnwys yn amrywio o Butch Cassidy i operau sebon, ac o archaeoleg i goedwigaeth ac yn ceisio gwneud synnwyr o anghysondeb bywyd yng Nghymru.

Ar fin ei gyhoeddi hefyd mae CD a chaset o gerddoriaeth *Pax*, perfformiad mawr diwethaf Brith Gof. Mike Peters o'r grŵp The Alarm yw'r canwr gwadd sy'n canu rhan y Gofodwr.

# Y llon a'r lleddf

● *Llongyfarchiadau i John Wyn Williams a Dr Mared Rhys ar eu dyweddiad. Mae John yn fab i Mari Wyn a'r diweddar Ifan Wyn Williams, a Mared yn ferch i Dr Glyn a Dr Ann Rhys, Ystradmeurig.*

● *Llongyfarchiadau i John Parry-Jones, mab David a Janet Parry-Jones ei ei ddyweddiad â Bethan Roberts, merch Wyn ac Angela Roberts o Bentyrch.*

● *Llongyfarchiadau i Nia Percy o'i phenodi yn weinyddydd newydd cwmni Brith Gof.*

● *Llongyfarchiadau i Sioned a Robert Thomas ar enedigaeth Geraint, brawd bach i Mared.*

● *Llongyfarchiadau i Mererid Hopwood ar ei llwyddiant yn ddiweddar yn ennill ei doethuriaeth.*

● *Llawenydd oedd clywed am enedigaeth Ffion Mair, plentyn cyntaf Betsan a Malcolm Perrett ar Ebrill 17eg.*

● *Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Lily Richards yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod Herbert. Mawr fu ei gofal amdano.*

● *Cydymdeimlwn ag Iwan a Nansi Jones yn eu profedigaeth o golli eu merch Sali, hoff gariad David, chwaer annwyl Hywel a Mags, ac Anti hoff Luke a Carey.*



● *Llywydd newydd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru am 1991-92 yw W J Evans, Pennaeth Adran Gymraeg Ysgol Gyfun y Ddraenen Wen ym Mhontypridd. Pob dymuniad da iddo yn ei swydd newydd.*

y Dinesydd
**Golygydd:** Shân Emlyn, 5 Yr Hen Dŷ, Heol Fair, Llandaf, Caerdydd CF5 2EE. 0222 567438
**Dylunio ac argraffu:** Sureset Cysylltiadau Torfol, 10 Melingruffydd Drive, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7HS. 0222 521192 Fax 0222 521553
Pob gohebiaeth at y golygydd. Nid yw cynnwys yr erthyglau a gyhoeddir yn y Dinesydd o reidrwydd yn adlewyrchu barn y cyhoeddwyr. © Y Dinesydd 1991. 14,400 o ddarllenwyr. Dyddiad cyhoeddi 12 Mai 1991.

# AnnwylDdinesydd

## Clwt Ifor Bach? *mae'r ddadl yn poethi...*

Yn dilyn erthygl *Menna'n Manylu* yn y Dinesydd mis Mawrth/Ebrill, hoffwn ategu at ei sylwadau ynglŷn â Chlwb Ifor Bach a'i ymdriniaeth ag aelodau ac ymwelwyr yn ystod penwythnosau'r gêm...onid yw hyn yn wir **bob** penwythnos? Wedi i rywun ymbalfalu i mewn ac wedi dod dros yr 'anhawster' o "Ydych chi'n aelod...wel pum punt i ymwelwyr..." ac ati ac ati, rhaid cerdded i mewn i'r clwb.

Hoffwn restru llawer o bethau ynglŷn â chyflwr y clwb ac ymdriniaeth y staff â'u hymwelwyr, ond yr hyn yr hoffwn i a llawer o'm cyfeillion ofyn ydy – "a yw staff y clwb yn gwybod sut mae defnyddio bwced, mop a dyster – os nad ydynt, fydde **rhywun** yn fodlon eu haddysgu? Falle wedyn, wedi i'r clwb gael spring clean, bydde pobl yn fwy bodlon i ail-fynychu'r clwb. Onid hynny yn y pendraw yw beth mae staff y clwb ei eisiau?

Chwarae teg i Menna am ddod â'r pwynt i'r wyneb. Mae teimladau cryf am y sefyllfa bresennol ein 'sefydliad Cymreig'. Ai dim ond Menna sy'n fodlon lleisio ei barn a'i chonsern yn gyhoeddus?

***Bethan W Jones***

## ...a'r Clwb yn ymateb

Mynegwyd cryn siom mewn cyfarfod o Bwyllgor Clwb Ifor Bach yn ddiweddar o ganlyniad i sylwadau pigog ac eithafol am y Clwb a ymddangosodd yn y golofn *Menna'n Manylu* yn y rhifyn dwetha o'r Dinesydd.

Soniodd am y diffyg croeso wrth ddrws y Clwb yn arbennig adeg gêmau rygbi rhyngwladol.

Mae unrhyw un sy'n dod i'r Ddinas ar yr achlysuron hynny yn gwybod yn iawn am yr awyrgylch cynhyrfus a threisgar yn aml sy'n bodoli ar y strydoedd, ac felly anodd ydy rhoi gwir groeso wrth reoli a chadw trefn wrth ddrws unrhyw glwb, gwesty a thafarn.

Ond am weddill y flwyddyn mae'r Clwb yn ceisio ei orau glas i estyn croeso iawn i'r aelodau a'r ymwelwyr lu a ddaw i'r Clwb o wythnos i wythnos.

Mwya'n y byd sy'n cefnogi, mwya'n y byd y llwyddiant a'r gwelliant yn y cyfleusterau.

Mae'r Pwyllgor wastad yn chwilio am bobl sy'n barod i wasanaethu'r Clwb mewn gwahanol ffyrdd. Beth amdani Menna?

***Gwilym Roberts***
***Clwb Ifor Bach***

## Ar droed elusennol

Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddiolch o galon i bawb a gefnogodd fy nhaith gerdded o Gaerdydd i Ynysybwl ddydd Gwener y Groglith. Y nod oedd casglu £500, ond ymddengys mai £662 fydd y cyfanswm terfynol.

Cyflwynwyd siec am £1000 i Gymdeithas Alzheimer mewn cyngerdd yng nghapel Noddfa yn Ynysybwl ar nos Sadwrn, Ebrill 6ed.

Gadewais y tŷ ar ddydd Gwener y Groglith am 1.20pm, cyrraedd rhyw hanner ffordd – sef tu allan i Ysgol Rhydfelen – ychydig cyn 3, a chyrraedd pentref Ynysybwl tua 4.30pm, a chapel Noddfa am 5 o'r gloch.

Wedi llwyddiant eleni rwy'n bwriadu cerdded 16 milltir ym 1992 – o Ynysybwl i Gwmaman ger Aberdâr a nôl i Ynysybwl, a nod y daith fydd codi £1000.

***Gwilym E Davies***


**Ar Werth**

Fflat 2 stafell wely
Y Gilgant, Llandaf

Am fwy o wybodaeth
ffoniwch 560962


# Siglo'r seiliau

## *Saunders Davies sy'n bwrw golwg ar destun diwinyddol y mis*

Testun gwawd fydd Archesgob newydd Caergaint gan lawer. Nid yw hynny'n syndod gan mai creadur meidrol digon tebyg i'r mwyafrif ohonom ni yw George Carey, a bydd adegau pan fydd yntau, fel ninnau, yn gwneud ac yn dweud pethau annoeth, os nad ffôl.

Ond mae rheswm arall pam y caiff ei wawdio gan ein byd – gŵr agored i ddylanwad yr Ysbryd Glân ydyw. Gall hynny beri iddo weld pethau mewn goleuni gwahanol iawn i'r mwyafrif. Gan fod "ffolineb Duw yn ddoethach na dynion", dirgelwch llwyr i wybodusion y byd hwn fydd llawer o'i osodiadau a'i weithredoedd.

Nid peth newydd mo hyn i George Carey. Yn ystod ei weinidogaeth yn Eglwys Sant Nicholas yn Durham, gwelwyd chwyldro. Yn lle bod y drysau dan glo gydol yr wythnos ac eithrio'r Sul, daeth yn ganolfan ddyddiol bwysig yng nghanol y ddinas.

Bu digon o gwyno am fod yr adeilad yn cael ei halogi, a'r gwasanaethau Anglicanaidd ffurfiol wedi eu gweddnewid. Ni ellir llai na gweld ôl yr Ysbryd Glân yn ysgwyd y seiliau ac yn creu rhywbeth newydd – byw – perthnasol i anghenion y byd.

Dyna effaith dyfodiad yr Ysbryd Glân ym mhob cenhedlaeth. Clywodd y disgyblion cyntaf yr Ysbryd yn dod fel gwynt grymus yn rhuthro, ac yn lle eistedd yn y tŷ dyma nhw'n cythru allan i'r farchnad i sôn am hyn wrth eraill. Yn ôl yr hanes, roedd rhai wedi eu synnu, ac eraill yn gwawdio eu bod wedi meddwi.

Er gwaetha'r gwawd roedd canlyniadau cymdeithasol a gwleidyddol yr Ysbryd Glân yn bellgyrhaeddol wrth ddymchwel rhagfarnau. Mae hyn yr un mor bergnasol i ni heddiw.

Onid yr un Ysbryd fu ar waith yn bylchu'r ffiniau led led Ewrop yn ddiweddar? Canrif yr Ysbryd Glân fu hon. Gan mor fygythiol yw'r Ysbryd, ar gyrion yr Eglwys y gwelwyd ei ddylanwad amlycaf, a hynny yn y mannau mwyaf annisgwyl fel America Ladin neu'r Trydydd Byd.

Bellach treiddiodd i ganol bywyd yr Eglwysi mwyaf traddodiadol. Gwelwyd adfywiad ysbrydol yn Eglwys Uniongred y Dwyrain yn anialwch yr Aifft. Ni bu Eglwys Rufain yr un fath ar ôl i'r Pab Ioan XXIII agor y ffenestr i wynt yr Ysbryd Glân chwythu ar Ail Gyngor y Fatican.

Rhyw fis neu ddau yn ôl cyhoeddodd comisiwn athrawiaethol Eglwys Loegr adroddiad sy'n croesawu'r adfywiad sy'n digwydd yn y plwyfi lleol, a phwysleisir nad rhywbeth sy'n gyfyngedig i fywyd eglwysig mo dylanwadau'r Ysbryd Glân.

Er gwaetha'r rhwystrau, fe'i gwelir ar waith ym myd celfyddyd a'r cyfryngau, ym myd busnes a gwleidyddiaeth, yn wir drwy'r greadigaeth oll. Does ryfedd mai thema Cymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd yn Canberra fis Chwefror oedd *Tyrd Ysbryd Glân – adnewydda'r greadigaeth gyfan*.

A ninnau'n cofio'n arbennig am Williams Pantycelyn eleni, ni allwn lai na chael ein hatgoffa am rym aruthrol yr Ysbryd Glân yn ein hanes fel cenedl. Ond am na allwn fyw ar gynhysgaeth y gorffennol yn unig, mae Duw yn dal i anadlu gwynt bywiol yr Ysbryd Glân i'n ffroenau.

Beth yw effaith hynny? William Temple, un o ragflaenwyr George Carey, sy'n rhoi'r ateb symlaf: "Nid oes unrhyw anhawster i ganfod effeithiau'r Ysbryd oherwydd lle bynnag y mae ffrwythau'r Ysbryd, yno y mae ef".

Felly er bod y byd wedi hen anghofio cadw Gŵyl y Pentecost a'r Llungwyn (19-20 Mai), gall yr Ysbryd agor ein llygaid i weld cariad, llawenydd a thangnefedd – a mwy – ar waith o'n cwmpas bob dydd, a'n hysbrydoli i ymuno yn y ffordd ogoneddus hon o fyw.

# Canu clodydd... yn llythrennol!

## *Newyddion o ysgol Glantaf*

Pwy ddywedodd yn ddiweddar nad oedd y Cymry yn genedl gerddorol? Mae pobl ifanc De Morgannwg, a disgyblion Glantaf yn amlwg iawn yn eu mysg, yn prysur brofi eu bod yn bobl gerddgar dros ben. Unwaith eto mae Sir De Morgannwg wedi'i dewis fel y sir mwyaf gweithgar ym myd cerddoriaeth o blith holl siroedd yr ynysoedd hyn. Ers i'r anrhydedd yma gael ei roi gyntaf bum mlynedd yn ôl, mae De Morgannwg wedi ennill y wobr gyntaf ddwywaith, ac wedi cyrraedd yr ail safle ddwywaith.

Mae gan blant Glantaf ran ganolog yn y llwyddiant hwn. Mae canran uchel o aelodau'r cerddorfeydd, y bandiau prês a'r côr, yn ddisgyblion Glantaf. Yn wir, mae Geraint Lloyd wedi'i ddewis yn gerddor y flwyddyn ar y clarinet, a Paul Jones wedi'i ddewis i ganu gyda Chôr Ieuenctid Cenedlaethol Cymru. Ychydig iawn o denoriaid ifainc a fegir yng Nghymru heddiw mae'n debyg. Mae galw mawr am wasanaeth bechgyn Glantaf i atgyfnerthu corau ysgolion eraill hyd yn oed.

Ein cariad mawr arall ni fel Cymry yw rygbi. Mae Andrew Grabham, disgybl yn y drydedd flwyddyn, wedi'i ddewis yn aelod o garfan tîm rygbi Cymru dan 15 oed.

Cyrhaeddodd y tîm rygbi cyntaf rownd derfynol Cwpan Ysgolion Cymru, cystadleuaeth a noddwyd gan y *Sunday Times*.

Yn y drydedd flwyddyn hefyd mae Angharad Mair Thomas a enillodd gystadleuaeth y *South Wales Echo* am draethawd *Cardiff My City*. Ei gwobr oedd tocynnau i'r gyngerdd Gŵyl Ddewi a gynhaliwyd yn Neuadd Dewi Sant, a £250 i'r ysgol i'w wario ar adnoddau i'r adran Saesneg. Mae traethodau Gŵyl Ddewi y *Western Mail* yn hen ffefrynnau, ac eleni enillodd Alun Simpson yr ail wobr am draethawd Saesneg.

Rhag i chi feddwl mai dim ond pethau all-gyrsiol sy'n digwydd yn yr ysgol, llawenydd yw llongyfarch Dylan Hughes ac Alun Walters ar ennill ysgoloriaethau i goleg Aberystwyth, a Daniel Thomas a Siôn Edwards am ennill ysgoloriaethau i Abertawe.

*Welsh Connection*

*Asiantaeth au pair a nani*

Ydych chi angen help dros wyliau'r haf?
Ydych chi wedi ystyried cael au pair?

*neu*

ydych chi wedi diflasu ac eisiau newid?
Ydych chi wedi ystyried gweithio dramor?
*Ffrainc, yr Eidal, Sbaen, Awstria, y Swistir, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd, Canada*

Am wybodaeth bellach cysylltwch ag
**Elen Jones,**
**Welsh Connection, 16 The Balcony,**
**Castle Arcade, Caerdydd CF1 2BU**
**0222 377452**

**Er cof am Glesni Evans y Gwanas, Brithdir, Dolgellau, a hunodd 27 Ebrill 1990. Athrawes yn Ysgol Glantaf.**

*Un annwyl llawn o ynni – un dyner*
*A dawnus oedd Glesni,*
*Trallod bod rhaid cofnodi,*
*Nad yw hi'n awr gyda ni.*

***Ieuan James***

# y Sêr

## *Eiry Palfrey*



### *Aries*

Dylai hwn fod yn fis ardderchog i roi eich sefyllfa ariannol mewn trefn. Ond ceisiwch gael yr holl waith papur allan o'r ffordd cyn yr 17eg o'r mis, gan y bydd eich bryd ar bethau eraill llai bydol ar ôl y dyddiad hwnnw. Fe allech gael cildwrn annisgwyl tua chanol y mis.

### *Taurus*

Dyma fis gorau'r flwyddyn i chi – fel Eifion Wyn – pan fydd yr haul yn eich arwydd. Gwnewch yn fawr ohono. Ac o'r 17eg ymlaen bydd Mercher yn eich arwydd hefyd yn rhoi pob math o syniadau beiddgar a gwreiddiol yn eich pen. Ceisiwch beidio â bod yn rhy glyfar i'ch lles eich hun!

### *Gemini*

Dyw mis Mai ddim yn gyfnod da i chi'n astrolegol fel rheol, dyma'r cyfnod pan fyddwch yn paratoi ar gyfer y diwrnod mawr pan fydd yr haul yn symud i'ch arwydd. Ond eleni mae Gwener hawddgar yn Gemini tan y 10fed o Fai, pan fydd rhamant yn y gwynt a lwc dda hefyd!

### *Cancer*

Mae mis ardderchog o'ch blaen, cyfnod i chi gymdeithasu a mwynhau bywyd, yn enwedig ar ôl y 10fed pan fydd Gwener yn symud i'ch arwydd. Mi fydd sawl un ohonoch yn cael cyfnod rhamantus iawn, a chyfle i deithio. Ond byddwch ofalus, mae damweiniau o gwmpas.

### *Leo*

Chewch chi ddim cyfnod gwell na hwn eleni i hyrwyddo'ch gyrfa, braenarwch y tir ddechrau'r mis, gwthiwch y cwch i'r dŵr tua'r 20fed, ac erbyn diwedd y mis fe ddylai pob math o ddanteithion ddod i'ch rhan. Ond wrth ganolbwyntio ar eich gwaith, peidiwch ag esgeuluso'ch cymar.

### *Virgo*

Mae'n bosib iawn yr ewch chi ar daith dramor y mis hwn, neu wneud trefniadau ar gyfer gwyliau. Ewch a mwynhewch, dyw pethau ddim wedi bod yn rhy llyfn yn astrolegol i chi yn ddiweddar. Ond ceisiwch ddod adre cyn yr 21ain, pan y dylech glywed am rodd ariannol.

### *Libra*

Bydd hwn yn gyfnod eitha tawel i chi yn astrolegol, cyfle felly i roi trefn ar eich materion ariannol, cyn i'r biliau mawr ddisgyn ar eich mat. Mae'n eitha posib y byddwch yn teimlo'n swrth a blinedig ganol y mis – gofalwch orffwyso digon, a daw eich ynni yn ôl erbyn diwedd y mis.

### *Scorpio*

Mi fyddai'n syniad pe baech chi'n canolbwyntio ar eich perthynas (neu eich priodas) y mis hwn. Ydych chi wedi bod yn esgeuluso'ch cymar yn ddiweddar? Gwnewch yn iawn am hynny cyn cael ffrae fawr. Byddai wythnos o wyliau yn gwneud y byd o les i chi'ch dau nawr.

### *Sagittarius*

Gwaith, gwaith, gwaith, a mwy o waith. Dyna fyrdwn eich cân y mis hwn. Peidiwch â chwyno, mi fyddwch yn elwa o'ch llafur maes o law. Ond cymrwch ofal o'ch iechyd, a cheisiwch beidio â gwthio'ch hun yn rhy galed, er mai pobl eraill sy'n gyfrifol am y pwysau sydd arnoch.

### *Capricorn*

Cadwch broffil isel y mis hwn, Capricorn. Mae'n gyfnod creadigol iawn, felly ewch ati i greu mewn rhyw gornel bach tawel. Cadwch allan o lygad y cyhoedd os medrwch chi am y tro. Os oes rhaid cyfarfod â phobl ceisiwch wneud hynny yn ystod wythnos gynta'r mis.

### *Aquarius*

Dyma gyfnod ardderchog i chi i sbring-clinio, neu harddu'ch cartref, adeiladu estyniad, tŷ gwydr neu bwll nofio. Mwynhewch, ond peidiwch â gorwario chwaith. Ar ôl y 18fed cadwch ofal o'ch iechyd, ac mae damweiniau'n bosib hefyd, felly gofal amdani!

### *Pisces*

Mae hwn yn fis ardderchog i gyfathrebu, anfon llythyron at hen ffrindiau, codi'r ffôn neu wneud cymwynas â'ch cymdogion. Mae'r cyfnod o'r 9fed i'r 12fed yn gyfnod gwych i chi, pam na ewch chi ffwrdd am benwythnos egsotic rhywle, neu gynnal parti?

# Hel Meddyliau

## Huw Ethall

Fe gefais flas mawr, fel chithau mae'n siŵr, ar erthygl brofoclyd a gogleisiol Kynric Lewis yn rhifyn mis Chwefror o'r Dinesydd. Pa bregethwr allai peidio ag ymateb iddi – nac aelod eglwysig o ran hynny?

Soniodd am sawl sialens sy'n wynebu'r gwrandawr yn ei sêt. Y sialens gyntaf yw dygymod â'r cyfieithad newydd o'r Beibl, a gwnaeth bwyntiau dilys a theg. Wn i ddim ai'r gair 'sialens' sy'n berthnasol fanna chwaith. Yr ail sialens yw "gwrando'r bregeth ar ei hyd". Sialens eto? Amynedd 'falle, eu ddiddordeb neu ddisgyblaeth. Ond sialens?

Teimlais wedyn mai gŵr gorsensitif i hawliau hollalluog, hollbresennol deddf gwlad sydd yma. Meddai "Mae deddf gwlad yn diddymu hyd yn oed yr hawl sylfaenol o rydd ymadrodd ar ran aelodau tra pery'r gwasanaeth. Nid gwiw i neb fynegi amheuaeth ar goedd a does neb i wrthwynebu". Y bar-gyfreithiwr, sbo, sy'n siarad fan hyn, a chysgod cyfraith i'w weld ym mhobman, fel bod cyfraith nid yn amddiffyn rhyddid fel y dylai, ond yn ei gwtogi ac yn ei fygu.

Buasai'r rhan fwyaf ohonom ni bregethwyr wrth ein bodd yn cael rhywun yn torri'r gyfraith honno mewn oedfa a chlywed ambell un yn gweiddi "Howld on boi!" neu "Nonsens llwyr!", neu "Beth am hyn a'r llall?". Byd rhydd gras yw byd addoli, nid byd cyfyng deddf a chyfraith. Mater arall a fyddai rhai ohonom â'r gallu i amddiffyn ein hunain, cofiwch.

Doniol iawn oedd darllen am rai pregethwyr – ie, heddiw! – yn y pulpud. "O ddringo i'r pulpud fe'u gweddnewidir" medd y colofnydd. "Mae'r dyn naturiol, dirodres yn diflannu... nid oes fawr o gydymdeimlad â'r gwrandawr". Pa dynnu coes yn wir yw hyn? "Un neu ddau" sydd ohonynt meddai.

Ond yn y cyfeiriad at y pregethwr "Dweud y Drefn" a'm gogleisiodd i fwyaf, rhaid i mi gyfaddef, a chofiaf am gerdd Cynan yn sôn am bregethwr "y fflangell":

*Pan wyf yn hen bregethwr piwis cas*
*Heb destun ond 'Chwaraeon gwag yr oes',*
*Yn dwrdio pobol ifanc wyllt y dydd*
*Am feddwi newid gair o'u cyffes ffydd,*
*A'u galw'n ddirywiedig a difoes –*
*Bryd hynny, a chwi'n gwingo o dan loes*
*Fy fflangell ar eich rhwyf, gwybyddwch bois,*
*Er gwaethaf ambarel a doniau rhydd,*
*Het silc a dillad offeiriadol prudd*
*Nad proffwyd monof dros Wr y Groes*
*Pan wyf yn hen".*

Cofiaf, pan oeddwn yn weinidog yn Salem, Porthmadog, i un o'r aelodau ddweud wrthyf yn ddifrifol "Dach chi ddim yn deud digon o'r drefn wrthon ni!".

Ar y llaw arall, darllennais flynyddoedd yn ôl am aelod o gapel a adawodd ei eglwys oherwydd, meddai, "I was tired of having gravel thrown at my face twice a Sunday". Mae'r ateb yn syml felly.

Diolch i Kynric Lewis fodd bynnag am ei deyrnged ddidwyll i'r "bugeiliaid da" sydd o hyn ar gael meddai ef. Geiriau Gwenallt ddaw i'r cof:

*Y pwysicaf o ddigon yw'r Offeiriad distadl*
*Sydd mewn tre yn moli Mair:*
*A'r Gweinidog di-sôn-amdano ym mherfedd y wlad*
*Sydd yn ei lyndra yn pregethu'r Gair*

yDinesydd

# Cysegr glwb i'r dysgwyr


Bu'n draddodiad ers tro bellach i gynnal boreuau coffi rhwng deg a hanner dydd bob bore dydd Sadwrn yn festri capel y Tabernacl yn yr Ais, a daeth yn werddon boblogaidd ar gyfer hoe yn ystod bwrlwm bore o siopa.

Ers rhai misoedd bu nifer o ddysgwyr yn galw heibio er mwyn cael paned a chlonc yn y Gymraeg, a gwelodd y capel gyfle i lenwi gagendor sy'n datblygu gyda dirwyn dosbarthiadau i ben bob haf, ac sy'n amddifadu nifer o bobol o gyfle i ymarfer eu Cymraeg.

Mae'r Tabernacl erbyn hyn wedi sefydlu'r Clwb Siarad ar gyfer y dysgwyr bob bore dydd Sadwrn yn gysylltiedig â'r boreuau coffi.

Cysylltwyd â'r dosbarthiadau dysgu Cymraeg yng Nghaerdydd ac mae'r ymateb i'r clwb penwythnos hwn yn un da, gyda'r aelodau'n cael ymuno yn rhad ac am ddim.

# CROESAIR AP LEWSYN
## Rhif 109 Mai 1991



**Ar draws**
6. Disgrifiad o'r dyn cyfan? (1'1,5,1'1,5)
9. Ai dyma sy'n gwneud rhai pobl mor benstiff? (6)
10. "Ennill it ______ dawel". (W.W) (8)
11. Gadewch inni adweithio trwy lunio ateb mwyn (8)
13. Safon i ffurfio llednant (6)
15. Bardd *Y Storm* (a'r mynydd lleol) (6)
17. Bwydodd (gan ddweud "Amen") (6)
19. Ffraethineb Saddam Hussein? – go brin (6)
20. Awdur y pennill *Dyma Feibl annwyl Iesu* (8)
22. Y siant a ganodd D.R yn grynedig (8)
24. Un o'r perlysiau a dyfir gan Talfan (6)
26 Ffordd gynnil o fynegi (2,3,2,2,5)

**I lawr**
1. Crasfa i'r ferch fodern? (5,9)
2. Ai ugain yw rhif y pwyntiau? (4)
3. Cafn fwyd a gysegrwyd (6)
4. Trefnu i gosbi dwy am frathu i'r byw (8)
5. Nid felly, maen nhw'n dweud (4)
7. Ein cyflwr cyntefig (6)
8. "A'n dyga innau drwy ei ______ ______" (Glan Geirionnydd) (7,7)
12. Rysait i facsu tablen, gan ychwanegu'r mymryn olaf o halen (5)
14. Ar hyd ffordd droellog a serth y gwelwyd y greadures (5)
16. Mae'r llythrennau i gyd yma (ond y chweched) i ddangos sut mae byhafio (8)
18. Adeilad o gerrig a godwyd yn ardal Gabalfa (6)
21. Alun yn taro'i big i mewn tra rown i wrthi yn rhoi min ar gyllell – ac yn llenwi'r lle ag arogl atgas tybaco (6)
23. Lle poeth sy'n rhan o gredo pob Methodyn (4)
25. "A'i arwain i Galfari ______." (Thomas Lewis) (4)

### Datrysiad rhif 108



### Cystadleuaeth 108

Derbyniwyd 12 cynnig, a 10 ohonynt yn berffaith gywir. Yr enw ffodus a ddaeth allan o'r het oedd eiddo Mr G Jones, 3 Heol Dewi, Pen-yr-Aber, Abergwaun, ac felly efe a gaiff y tocyn llyfr y mis hwn. Dyma enwau y naw arall oedd yn gywir: Delyth Pollard, Radur; Elen H Lewis, Radur; Hywel Jones, Cathays; T A Owen, Llandaf; Elan Griffith, Casnewydd; Idwal Hughes, y Mynydd Bychan; John G Breese, Glanyrafon; Marged Davies, Llandaf; a Beryl Hall, Cyncoed.

### Cystadleuaeth 109

Tocyn Llyfr £5 eto. Pob datrysiad i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn Mai 18fed. Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair os gwelwch yn dda.

# Menna'n Manylu

Dwi'n manteisio yn y golofn yma i dalu teyrnged i un o gymeriade 'mwya' lliwgar radio a theledu Cymraeg ers dros ddeunaw mlynedd, ac un sydd wedi cyfrannu ym mwth ac yng nghoffrau'r papur bro hwn yn gyson ers blynyddoedd.

Mae gennai ddyled fawr i Ruth Parry (sydd wedi gadael Radio Cymru i sefydlu crêche) am arwain y ffordd i fi pan gychwynnes i efo Radio Cymru a finne'n gywen ddiniwed o'r coleg. (Dwi'n dal yn ddiniwed ond wedi tyfu'n iâr erbyn hyn). Heb Ruth fyddwn i byth wedi cael y cyfleoedd, y profiade a'r difyrrwch dwi wedi'u profi ar hyd a lled y wlad. Mae hi wedi fy arwain i drwy Gymru a thu hwnt wrth recordio, a finne wedi elwa o'r teithie hynny i ddod i nabod fy ngwlad. Dwi wedi mynychu sioeau ac eisteddfode di-ri yn ei chwmni, ac wedi gweld mwy o'r teulu brenhinol na hanner fy nheulu dy hun!

Mae'r Roial Welsh wedi bod yn binacl bob blwyddyn i mi ers dros ddeng mlynedd, ac mae presenoldeb ffermwyr o Fôn i Fynwy sy'n gyd-gyfeillachwyr i Ruth y fonws i unrhyw ferch. Dydy'r Roial Stoneleigh yn Lloegr ddim hanner mor gartrefol, ond mae sioe dan do'r Smithfield yn ddifyr iawn yn enwedig aradl Piccadilly wedi nos!

Mi fûm unwaith hefyd yn arddangosfa'r Ideal Home efo Ruth. Er ei bod yn braf bod yng nghanol cyfoeth am ychydig orie, roedd yn brafiach mynd adre i gartre go iawn. Gyda llaw, mi welsom y Cwîn drwy ffenest stafell ffrynt Jonathan Davies – roedd o yno'n prynu tŷ a Ruth yn y tŷ hwnne'n recordio Jonathan.

Profiad arall ges i oedd diwrnod bendigedig yn rasus Ascot – roedd gan Ruth rig-out smart fel arfer ar gyfer pob achlysur, ond gorfu i mi fenthyg het a ffrog gan uned wardrob y Gorfforaeth (weles i'r ffrog ar Mrs McGurk o bawb yn ddiweddarach!). Nodyn wrth basio – bachgen o adre'n cael ei gyfarch gan ferch gwisgoedd y Bîb: "Hi, I'm Julie, wardrobe"...a fynte'n ateb "And I'm Gwyn, dressing table"!

Yn Sioe Ffasiwn Olympia roedd Ruth a finne ar yr un bwrdd â mawrion y byd fasiwn a Duges Caint yn wraig wadd. Dyne'r tro cyntaf a'r ola i mi brofi cig colomen – mi hedes ac mi grwydres yn ddigon pell i chwilio am le chwech ar ôl y geged gynta.

Rhyw atgofion felly sydd genna i am weithio efo Ruth – bydd y byd adrlledu'n dipyn mwy tlawd ar ei hôl hi, ond cyfoethogi wneith byd y babis bach ym meithrinfa 'Anti Ruth'. Pob lwc iddi yn Si-Lwli, ac os fydd hi isho cyfraniad genna i i'r busnes, ga i ddiolch ymlaen llaw i'r A.I!

*Diolch i Ruth am ei "Bwth" dros y blynyddoedd. Ymunwn â Menna i ddymuno'n dda iddi yn ei menter newydd. Bydd pob plentyn yn elwa o fod yng nghesail Ruth a'i thîm. Pob hwyl!*

yDinesydd

# Nant Lleucu

## *Owen John Thomas sy'n cydio yn y drafodaeth am hanes un o hen enwau Cymraeg Caerdydd*

Mae Meurig Rees yn gywir wrth dybio taw o nant y Rhath y daeth enw Cylch Meithrin Lleucu. Ond, er bod y cylch yn defnyddio *Lleucu* yn hytrach na *Llechau*, ni wnaed y dewis heb ystyriaeth deilwng ac mae sawl ffynhonnell yn rhoi sail gadarn i'r penderfyniad:

- Arolwg 1650 – *Pont Lickie*
- Arolwg 1703 – *Pont Lykie*
- Mapiau Ystad Tredegar, 1772 – *Pont Lleici* a *Nant Lleici*
- Ar lafar i archifydd Caerdydd yn 1896; Job Richards (Ffynnon Bren) – *Pont Licky*; Mary Harris (Tai Cochion) – *Pont Licky*
- 1969, yr Athro William Rees, Cardiff/History – *Pont Lleucu*

Er i'r Athro William Rees fod o'r farn taw o *Llechau* neu *Cenlechau* y daeth yr enw'n wreiddiol, nid yw'n rhoi tystiolaeth i'w chefnogi. Serch hynny, roedd Lleucu, fel y sillafiad gyfoes o'r enw benywaidd, yn ymddangos i rieni'r cylch meithrin fel yr enw priodol ar ôl ystyried popeth.

Damcaniaeth amgen i Llechau am wreiddiad enw'r nant yw hyn: roedd Lleucu'n wraig i Llywelyn Bren, Arglwydd Cwmwd Senghennydd, ac efe o'r un tylwyth ag Ifor Bach, ac felly hefyd ag ŵyr Ifor sef Gruffydd ap Rhys.



● *Ffynnon Bren a safai gyferbyn â 110 Heol Albany – man geni Owen John Thomas*

Roedd gan Gruffydd yr unig ddarn o dir yn y Rhath a barhawyd ym meddiant y Cymry adeg y Normaniaid, h.y: Griffiths Moor (Gwaun Gruffydd). Llain o dir i'r gogledd o Heol Casnewydd yw Gwaun Gruffydd, oddeutu Colchester Avenue, rhwng Cae'r Harlequins ac Afon Rhymni.

Ar y Waun mae Nant Lleucu'n llifo heibio drws blaen archfarchnad Sainsbury ac wedyn o dan Colchester Avenue i'r afon. Mae'n gymwys iawn bod gan y nant sy'n rhannu Gwaun Gruffydd yr enw Lleucu, enw sy'n perthyn i dylwyth y tirfeddianwyr gwreiddiol.

Yn ôl hen archifydd Caerdydd, J Hobson Matthews, Lleucu – gwraig Llywelyn Bren – a sbardunodd Gymry'r dalaith i ryfela yn erbyn y Normaniaid o gylch 1314-16. Roedd gan Lleucu lu o blant ac yn ôl pob sôn yn Gymraes bybyr a balch.

Felly ai Lleucu Bren sy'n cael ei choffau yn enw'r nant – ac efallai hefyd yn Ffynnon Bren? Beth bynnag yw'r ateb, mae mamau Cylch Meithrin Nant Lleucu yn sicr yn ymladd dros yr un achos a wnaeth Lleucu Bren a'i gŵr Llywelyn saith can mlynedd yn ôl.

yDinesydd

**LYNN JONES**

Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau

Aelod o FIMBRA

30 Highfields, Llandâf,
Caerdydd CF5 2QB

Ffôn (0222) 562816



# PERLAU TAF ELÁI

CYMRU HTV

Deugain awr
o raglenni
o faes
Eisteddfod
Genedlaethol
yr Urdd

TAF ELAI
1·9·9·1